

A ydy creadigrwydd yn gallu cyfoethogi
dealltwriaeth y dysgwyr o 'Leoedd a
Phobl' yn y Cyfnod Sylfaen?

Rhif myfyriwr: 1300068

ITDH6002C – Datblygu Diddordebau
Proffesiynol – Y Dyniaethau

BA Addysg Gynradd gyda SAC
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Ebrill 2016

Clawr Blaen

Fy ngwaith i yn llwyr, yn eithrio lle cyfeirir at waith eraill, yw'r gwaith a geir yn y prosiect ymchwil yma. Deallwyd bod unrhyw waith y defnyddiwyd heb gyfeirio ato yn y prosiect ymchwil yn weithred o lēn-ladrad, a arweinir at fethiant y modwl hwn.

Nid yw unrhyw ran o'r prosiect ymchwil hwn wedi cael ei gyflwyno, neu ar hyn o bryd yn cael ei gyflwyno mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw ddyfarniad arall heblaw'n rhan o radd BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Tudalen gynnwys

<u>Pennod 1: Cyflwyniad</u>	t.7
<u>Pennod 2: Adolygiad Llenyddiaeth</u>	t.9
2.1 – Y Cyfnod Sylfaen.....	t.9
2.2 – Y dyniaethau/Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.....	t.10
2.3 – 'Lleoedd a Phobl'.....	t.11
2.4 – Creadigrwydd.....	t.12
2.5 – Hyrwyddo creadigrwydd o fewn 'Lleoedd a Phobl'.....	t.14
<u>Pennod 3: Methodoleg</u>	t.16
<u>Pennod 4: Canlyniadau a Thrafodaeth</u>	t.18
4.1 – Cyfweiliadau – athrawes a grŵp o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen.....	t.18
4.2 – Gwers a arsylwyd arni.....	t.19
4.3 – Gwersi creadigol a oedd yn gysylltiedig â 'Lleoedd a Phobl' a addysgwyd gan yr ymchwilydd.....	t.20
<u>Pennod 5: Casgliad</u>	t.22
<u>Rhestr o gyfeirnodau</u>	t.23
<u>Atodiadau</u>	t.27

Diolchiadau

Rhaid diolch i'r nifer a gyfrannwyd i'r prosiect ymchwil hwn. Yn gyntaf, diolch i Dr Sioned Hughes a Dr Geraint Davies am y ganllawiaeth a'r arweinyddiaeth, yn ogystal â'u cymorth a'u syniadau wrth drafod y prosiect ymchwil mewn darlithoedd.

Yn ail, diolch i'r athrawes a'r plant am eu parodrwydd i rannu eu gwybodaeth, eu syniadau a'u harfer dda er mwyn cynorthwyo'r ymchwilydd i gwblhau'r prosiect ymchwil yn effeithlon. Hefyd, am adael yr ymchwilydd i gynllunio ac addysgu gwersi creadigol a oedd yn cysylltu'n drawsgwricwlaidd efo 'Lleoedd a Phobl'. Rhaid diolch i bennaeth yr ysgol hon am ganiatáu mynediad i'r ymchwilydd i gyfweld a'r athrawes a'r plant yn ystod ei phrofiad addysgu proffesiynol olaf.

Pennod 1: Cyflwyniad

Nod y prosiect ymchwil yma yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymchwilydd wrth ddarganfod a ydy creadigrwydd yn gallu cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen wrth iddynt ddysgu am 'Leoedd a Phobl', sef yr elfen ddaearyddol o fewn y maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. Yn ogystal, hoffa'r ymchwilydd ddatblygu ei gwybodaeth bersonol a phedagogaid yn y dyniaethau yn gyffredinol, yn benodol 'Lleoedd a Phobl'.

Cynhwysa amcanion y prosiect yma:

- Ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen a sut mae'r cwricwlwm yn annog creadigrwydd.
- Ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a'i bwysigrwydd o fewn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.
- Ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o 'Leoedd a Phobl' yn benodol a pham ei fod yn bwysig o fewn ysgolion cynradd.
- Ymchwilio beth yn union yw creadigrwydd a sut i'w hyrwyddo o fewn y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o hyrwyddo creadigrwydd o fewn 'Lleoedd a Phobl'.
- Defnyddio tystiolaeth ddibynadwy i gefnogi'r hyn a ddarganfyddid.

Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, dewiswyd defnyddio gwahanol ddulliau ymchwil, a gynhwysir rhai cynradd ac eilaidd, i gynhyrchu a lledaenu gwybodaeth yr ymchwilydd ynghyd a bod o gymorth i'r ymchwilydd wrth ateb y cwestiwn allweddol. Ceir rhestr o'r dulliau:

- Cyfweiliadau, sef sesiynau holi ac ateb gydag athrawes a disgyblion y Cyfnod Sylfaen.
- Arsylwi ar wers 'Lleoedd a Phobl' a chasglu enghreifftiau o waith disgyblion o'r wers yna.
- Adfyfrio a chasglu enghreifftiau o waith creadigol o wersi a chysylltwyd yn drawsgwricwlaidd efo 'Lleoedd a Phobl' a addysgwyd gan yr ymchwilydd ar brofiad addysgu proffesiynol.
- Ymchwilio a dadansoddi gwahanol fathau o ffynonellau eilaidd yn ymwneud â'r cwestiwn, gan gynnwys llyfrau, gwefannau a dogfennau.

Dewiswyd y teitl yma gan fod gan yr ymchwilydd ddiddordeb am a gwybodaeth gadarn am y maes. Hoffir ehangu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth yma ac yn dilyn y prosiect ymchwil hwn, yn gobeithio gwella ei harfer yn yr ystafell ddosbarth wrth addysgu'r elfen 'Lleoedd a Phobl' yn greadigol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Cytunir bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn andros o bwysig, ond nid ydyw'n deg i roi llai o bwyslais ar greadigrwydd, sydd hefyd yn bwysig o fewn addysg disgyblion ysgolion cynradd. Wrth ddilyn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, rhodda hyn gyfleoedd i blant i ddysgu wrth wneud a chwarae (APADGOS, 2008: 4). Teimlir bod creadigrwydd yn rhan fawr o wneud ac ar ôl beth rwyf wedi arsylwi a chlywed, credir yn gryf fod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn hoff iawn o fod yn greadigol wrth iddynt chwarae a gwneud dewisiadau.

Credir efallai nad ydy rhai athrawon yn hyderus wrth hyrwyddo creadigrwydd o fewn eu gwersi a hefyd yr ansicrwydd o'r gallu sydd gan greadigrwydd i gyfoethogi dealltwriaeth eu disgyblion wrth ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen, 'Lleoedd a Phobl' yn benodol ar gyfer y prosiect ymchwil hwn. Cefnogir y pwynt yma gan Ofsted (2011: 14) wrth iddynt ddweud y darganfuwyd o ymweliadau rhwng 2007 a 2010 bod rhai athrawon yn ddetholus yn yr hyn maent yn addysgu wrth iddynt ganolbwyntio ar agweddau penodol lle maent yn teimlo fwyaf diogel i'w haddysgu. O ganlyniad i hyn, nid ydy'r disgyblion yn yr ysgolion hyn yn cael profiad cydlynol a chynhwysfawr yn y pwnc (Ofsted, 2011: 14). Wrth feddwl am sefyllfaoedd fel hyn, teimlir bod angen mwy o gymorth ar athrawon, gan gynnwys, gwybodaeth, syniadau ac enghreifftiau o wersi a deunyddiau i'w defnyddio.

Cyfeirir at 'Lleoedd a Phobl' y rhan fwyaf o'r amser o fewn y prosiect ymchwil hwn, er efallai mai 'daearyddiaeth' sy'n cael ei sôn yn y dogfennau ac erthyglau ac ati. Mi fyddaf yn cynnwys 'daearyddiaeth' ar adegau os mai na beth sy'n gwneud mwy o synnwyr.

Pennod 2: Adolygiad Llenyddiaeth

O fewn y bennod hon, dymunir archwilio'n drwyadl ac adolygu'r llenyddiaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig â theitl y prosiect ymchwil hwn. Yn gyntaf, trafodir am gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol, yna'r maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd gan symud ymlaen i ganolbwyntio ar 'Leoedd a Phobl', sef yr elfen ddaearyddol o'r maes. Yn dilyn, trafodir am greadigrwydd yn gyffredinol, ac yn olaf, sut i hyrwyddo creadigrwydd o fewn yr elfen 'Lleoedd a Phobl'. Cynhwysa'r adolygiad llenyddiaeth wybodaeth o wahanol fathau o ymchwil, gan gynnwys, llyfrau, erthyglau, gwefannau, adroddiadau Estyn ac ati.

2.1 – Y Cyfnod Sylfaen

Fel y nodwyd uchod, rhodd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen digon o gyfleoedd i ddisgyblion 3 i 7 oed i fod yn greadigol. Dywed yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, wrth sôn am gefndir y cwricwlwm, ei fod yn 'annog plant i fod yn greadigol ac i ddefnyddio eu dychymyg ac mae'n sicrhau bod dysgu yn fwy difyr ac effeithiol' (Llywodraeth Cymru, 2015: 2). Hefyd, er bod yna maes dysgu Datblygiad Creadigol o fewn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, a gynhwysir Celf, crefft a dylunio, Cerddoriaeth a Symud Creadigol, noda yn y fframwaith (Llywodraeth Cymru, 2015: 48) y 'Dylai plant ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm.'

Dywed Donaldson (2015: 19) yn ei adolygiad diweddar, 'Dyfodol Llwyddiannus,' 'bod rhai cryfderau gwirioneddol yn nhrefniadau'r cwricwlwm presennol yng Nghymru y gallwn eu datblygu - yn bennaf oll, yr addysgeg sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen.' Dangosa hyn ei fod yn gwricwlwm effeithiol iawn. Ychwanegir at hyn gan Estyn (dyddiad anhysbys) wrth iddynt ddweud bod darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn naill ai'n dda neu'n rhagorol mewn tua 70% o ysgolion cynradd yng Nghymru, efo tua 7% ohonynt yn rhagorol. Er hynny, nodwyd nid ydy ychydig iawn o ysgolion cynradd yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn 'llawn', wrth i'r dysgu 'mynd yn rhy ffurfiol yn rhy gyflym' a'r disgyblion ddim yn derbyn digon o gyfleoedd i wneud gwahanol ddewisiadau a datblygu fel 'dysgwyr annibynnol' (Estyn, 2016: 42).

Noda Estyn (2010 dyfynnwyd yn Grigg a Hughes, 2013: 77) bod yna gred gyffredinol ymhlith ymarferwyr bod medrau'r plant yn gwella ers i Fframwaith y Cyfnod Sylfaen cael ei sefydlu. Cytuna Bergen (2002 dyfynnwyd yn Grigg a Hughes, 2013: 76) efo hyn drwy ddweud wrth i blant chwarae, maent yn llawn cymhelliant i ddysgu ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol. Atgyfnerthwyd hyn gan beth ddywed Vygotsky (1978 dyfynnwyd yn Cooper, 2004: 17), bod chwarae yn ffactor blaenllaw yn natblygiad plentyn. Hefyd, maent yn

cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau craidd iaith, llythrennedd a rhifedd yn ogystal â datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ehangach ar draws pob maes dysgu (Bergen 2002 dyfynnwyd yn Grigg a Hughes, 2013: 76). Fel rhan o theori Dewey, creda bod plant yn dysgu wrth wneud, sef syniad a ddatblygwyd gan Froebel, a hefyd y dylai addysg cael ei seilio ar brofiadau bywyd go iawn (Pound, 2006: 21). Cysyllta hyn yn gryf ag ethos y Cyfnod Sylfaen.

2.2 – Y dyniaethau/Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Diffinia Stanford University (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn Grigg a Hughes, 2013: 2) y dyniaethau drwy ddweud ei fod yn astudiaeth o ffyrdd di-rif y mae pobl, o bob cyfnod o hanes ac o bob cornel o'r byd, yn prosesu a chofnodi'r profiad dynol. Yn syml, 'the humanities explore human experience' (Grigg a Hughes, 2013: 1).

Mae gan y dyniaethau hanes hir iawn. Dros 2,500 o flynyddoedd yn ôl, roedd gan y Groegiaid clasurol syniadaeth newydd o ddynoliaeth a phwrrpas meddwl dynol, sef i resymu, chwilio am batrymau a gofyn cwestiynau (Grigg a Hughes, 2013: 3). Ychwanegwyd at hyn drwy ddweud y cyhoeddwyd Socrates, un o'r athronwyr blaenllaw, bod 'the unexamined life is not worth living' a'i fod yn bwysig bod pobl yn gwybod beth oeddent yn gwneud, pam yr oeddent yn gwneud hynny ac os oedd y peth wnaethant oedd y peth gorau i'w wneud (Grigg a Hughes, 2013: 3).

Mae gan y dyniaethau nifer o ddibenion, gan gynnwys, ceisio gwneud y defnydd ac adeiladu ar brofiadau uniongyrchol y disgyblion o'r byd o'u cwmpas, yn ogystal ag annog ymwybyddiaeth a chwestiynu gwerthoedd, agweddau a chredoau ynghyd a bod yn wybodus ac â golwg feirniadol o'r byd (Hoodless et al., 2009: 2). Er yr holl ddibenion cadarnhaol a'r sgiliau gall ddisgyblion datblygu wrth ymdrin â'r dyniaethau, rhybuddia Morgan (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn The Telegraph, 2014), sef yr Ysgrifenyddes Addysg, wrth sôn am ddisgyblion sy'n dewis TGAU a lefel A, bod gan y plant sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y celfyddydau a phynciau'r dyniaethau risg sy'n cyfyngu eu llwybr gyrfa yn y dyfodol.

Yn amlwg cred Donaldson (2015) fod y dyniaethau'n bwysig gan roddid fel un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn y cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu a fydd yn eu lle erbyn 2021 (Llywodraeth Cymru, 2016).

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd ydy'r maes dysgu sy'n cyfateb i'r dyniaethau yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, lle cynhwysa'r maes dysgu, 'Lleoedd a Phobl', sef yr elfen ddaearyddol ac 'Amser a Phobl', sef yr elfen hanesyddol, ynghyd ag elfennau gwyddonol.

2.3 – ‘Lleoedd a Phobl’

Fel y nodwyd, ‘Lleoedd a Phobl’ yw’r elfen ddaearyddol o’r maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd. Yn wreiddiol, daw’r gair ‘geography’ o’r gair Groegaidd ‘geographia,’ sy’n golygu ‘Earth writing’ (Barnes, 2010: 25). Heddiw, cynhwysa daearyddiaeth, ‘Lleoedd a Phobl’ yn yr achos hwn, diffiniadau eang, er enghraifft, safbwyntiau cymdeithasol a chysyniadau eang am y byd megis cynaliadwyedd a’r amgylchedd, lle’n ystod y ganrif ddiwethaf, ystyriwyd daearyddiaeth fel pwnc o ffeithiau megis enwau gwledydd a’u prif ddinasoedd, a disgrifiadau o afonydd a thirweddau (Barnes, 2010: 25). Dangosa hyn bod yr hyn sy’n cael eu hastudio o fewn ‘Lleoedd a Phobl’ yn newid wrth i amser fynd ymlaen. Tybed a fydd yr hyn y bydd disgyblion yn dysgu o fewn ‘Lleoedd a Phobl’ yn newid eto yn y dyfodol? Noda Grigg a Hughes (2013: 13) bod yna lawer o ddiffiniadau ar gyfer daearyddiaeth, ond maent fel arfer yn gysylltiedig ag astudiaeth o leoedd a phobl.

Mae’n andros o bwysig i ddysgu’r elfen yma o fewn ysgolion. Fel dywed y Geographical Association (2014), ‘Primary geography is a curriculum jewel’ sy’n bwnc ‘challenging, motivating, topical and fun.’ Atgyfnerthwyd hyn gan Cooper (2004: 11) bod yna ddadleuon wedi bod yn sôn am fod plant ifanc yn dysgu am eu hamgylchedd eu hunain trwy ddarganfod gwybodaeth am lefydd eraill sy’n hollol wahanol ac sy’n gallu cael eu cyferbynnu’n glir gyda’u profiad eu hunain. Fodd bynnag, sonia Grigg a Hughes (2013: 14) bod gan athrawon yr her bod lleoedd pell, y rhai o’r ‘Trydydd Byd’ yn enwedig, yn aml yn cael eu hadrodd am resymau negyddol.

Noda’r Department for Education (2013 dyfynnwyd yn Bland, 2014: 111), ‘A high-quality geography education should inspire in pupils a curiosity and fascination about the world and its people that will remain with them for the rest of their lives.’ Ychwanega Bland (2014: 112) at hyn drwy ddweud y digwydda arfer da mewn daearyddiaeth pan fu medrau daearyddol, pynciau a lleoedd yn cael eu hintegreiddio (Gweler atodiad 1).

Gall ysgolion derbyn Marc Ansawdd Daearyddiaeth i Ysgolion Cymraeg, sef gwobr yn ogystal ag offeryn pwerus i ddatblygu’r cwricwlwm, sy’n cefnogi’r broses o wella ysgolion (Geographical Association, 2014). Noda’r Geographical Association (2014) bod ysgolion sy’n derbyn y Marc Ansawdd yma’n cydnabod ansawdd a chynnydd mewn arweinyddiaeth daearyddiaeth, dysgu ac addysgu daearyddiaeth a datblygiad yn y cwricwlwm. Mae’r Marc Ansawdd gwreiddiol wedi cael ei addasu i fod yn fwy addas i ysgolion Cymru, lle mae yna newid o ran iaith a manylder i gyd-fynd efo cysyniadau’r cwricwlwm, er enghraifft, y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, ynghyd â chynnwys y cwricwlwm megis y ffocws sydd ar

ADCDF a hefyd crybwyll y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Geographical Association, 2014).

Creda Grigg a Hughes (2013: 80) bod ymwybyddiaeth o le yn dechrau unwaith mae gan y plentyn y gallu i archwilio'u cwmpas ac erbyn iddynt gyrraedd pump oed, mae llawer o blant yn gallu disgrifio ble maent yn byw ynghyd â nodweddion y byd naturiol. Dangosa hyn fod rhannau o'r elfen yma'n dod yn naturiol i blant i ryw raddau. Felly, mae'n bwysig iddynt dderbyn amryw o gyfleoedd yn yr ysgol i ehangu ar y ddealltwriaeth yna. I gefnogi hyn, dywed Grigg a Hughes (2013: 14), 'children have a natural interest in faraway places.' Cysyllta hyn efo beth gredwyd gan Isaacs (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn Grigg a Hughes, 2013: 75), y dylai plant fod yn rhydd i archwilio ac arbrofi gyda'r byd ffisegol.

O ran datblygiad hanesyddol 'Lleoedd a Phobl' yn y cwricwlwm, ymddangoswyd daearyddiaeth yn y cwricwlwm yn gyntaf mewn ysgol ramadeg yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, efo'r pwnc yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol cyntaf i ysgolion elfennol a gyhoeddwyd gan y wladwriaeth yn 1862 (Grigg a Hughes, 2013: 5). Yn ystod yr 1980au, yr oedd daearyddiaeth yn bwnc 'Cinderella' (DES 1989 dyfynnwyd yn Catling a Willy, 2010: 1) hyd nes yr oedd yn bwnc statudol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1989 a'n rhan o'r rhaglenni astudio daearyddiaeth gyntaf yn 1991 (Catling a Willy, 2010: 1).

2.4 – Creadigrwydd

Er dywed Duffy (2007 dyfynnwyd yn Gealy a Rees, 2010: 81) bod 'creadigedd' yn anodd ei diffinio 'gan ei fod yn gysylltiedig â phroses, cynnyrch ac unigolion,' mae nifer wedi creu gwahanol ddiffiniadau.

Creativity is a process which generates ideas that have value to the individual. It involves looking at familiar things with a fresh eye, examining problems with an open mind, making connections, learning from mistakes and using imagination to explore new possibilities.

(Education Scotland, dyddiad anhysbys).

Mewn ffordd symlach, dywed Hole a Hawker (2004: 127) mai bod yn greadigol yw 'involving the use of imagination or original ideas in order to create something'. Creda Barnes (2010: 25) bod creadigrwydd yn gallu cael ei ddysgu. I gyferbynnu efo hyn, awgryma Robinson (2015: 118) nad ydy plant yn gallu dysgu sut i fod yn greadigol a thaw myth yw'r hyn a glywyd. Cytuna Bruce (2004: 1) mai myth yw'r hyn a glywyd ynghyd ag awgrymu efallai nid ydy plant a phobl yn meddwl eu bod yn greadigol gan nad ydynt erioed wedi cael eu hannog i fod yn greadigol.

Mae'n mynd yn fwy ac yn fwy anodd anwybyddu'r ffaith bod creadigrwydd yn bwysig iawn o fewn ysgolion cynradd, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Creda Duffy (1998: 6) fod creadigrwydd yn andros o bwysig ar gyfer dyfodol y disgyblion sydd yn derbyn addysg mewn ysgolion cynradd ar hyn o'r bryd. Cytuna Estyn (2016: 7) efo hyn drwy ddweud yn yr Adroddiad Blynyddol 2014-2015 bod angen lefelau medrau llawer yn uwch ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru ar hyn o bryd i gymharu efo'r gorffennol. Atgyfnerthwyd hyn gan Education Scotland (dyddiad anhysbys) wrth iddynt ddweud y gall sgiliau creadigrwydd helpu dysgwyr i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith, yn ogystal â llunio eu cyfleoedd swyddi eu hunain. Noda Pound (2006: 21) y dadleua Dewey efo hyn i ryw raddau wrth iddo ddweud y credwyd y dylai addysg fod yn broses o fyw ac nid yn baratoad ar gyfer byw yn y dyfodol.

Mae'n amlwg y bydd creadigrwydd yn parhau i gael ei hyrwyddo yn y dyfodol gan sonia Donaldson (2015: 29) am greadigrwydd o fewn un o ddibenion y cwricwlwm newydd: 'yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd: yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion; yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau.' Yn ogystal â hyn, noda yn yr adolygiad, 'Dyfodol Llwyddiannus' mai un o'r 'sgiliau ehangach' sydd angen ei ddatblygu o fewn addysg yng Nghymru yw 'creadigrwydd ac arloesedd', sef meddwl ac archwilio syniadau a bod yn agored i fynegi barn (Donaldson, 2015: 42). Dangosa hyn nid dim ond yn y Maes Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol y bydd disgyblion yn datblygu a hyrwyddo creadigrwydd.

Yn ôl yn 2013, awgrymwyd gan Smith (2013: 4) yn yr Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru fod angen 'ehangu'r cwricwlwm presennol i gynnwys creadigrwydd, ochr yn ochr â rhifedd a llythrennedd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc.' O ran damcaniaethwyr, cynhwysa cwricwlwm ysgolion Steiner creadigrwydd a gweithgareddau bywyd go iawn (Pound, 2006: 27). Hefyd, soniwyd am greadigrwydd o fewn theori Bruner (Pound, 2006: 48).

O ran hanes creadigrwydd, nid oedd yn cael ei hyrwyddo o gwbl yn 1870 ac roedd y disgyblion yn cael eu hannog i beidio â bod yn greadigol (Logotron, dyddiad anhysbys). Yn ôl Craft (2005 dyfynnwyd yn Desailly, 2015: 29), mae yna ddau 'ton' o greadigrwydd wedi bod o fewn addysg. Yr adeg y cyhoeddwyd yr adroddiad Plowden yn 1967 oedd y 'ton' cyntaf, a oedd yn adroddiad a ganolbwyntiwyd ar addysg plentyn-ganolog lle newidiwyd y ffordd o addysgu i ddysgu'n seiliedig ar chwarae, a anogir creadigrwydd (Craft 2005 dyfynnwyd yn Desailly, 2015: 29). Fodd bynnag, erbyn cyhoeddwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol ym 1988, cafodd creadigrwydd a dysgu wrth wneud ei roi i un ochr wrth i'r

gyfundrefn brofi a gyflwynwyd ochr yn ochr i'r cwricwlwm cael effaith o leihau cyfleoedd i fod yn greadigol (Logotron, dyddiad anhysbys). Yn wahanol eto, daeth yr ail 'don', fel dywed Craft (2005 dyfynnwyd yn Desailly, 2015: 29), ar ddiwedd y 1990au a oedd yn adeg lle'r oedd y gymuned addysgol wirioneddol yn dechrau cymryd sylw o greadigrwydd.

Nid dim ond Cymru sy'n ceisio hyrwyddo creadigrwydd o fewn ei hysgolion, ond mewn llawer o wahanol wledydd eraill, er enghraifft y Ffindir, sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i greadigrwydd o fewn eu hysgolion (Robinson, 2015: 60). O ran y cwricwlwm sydd yng Ngogledd Iwerddon, nodwyd 'encourage creativity and imagination' fel un o flaenoriaethau eu Cyfnod Sylfaen (Council for the Curriculum, Examinations and Assessment, 2006 : 3). Tamaid yn wahanol, mae gan yr Alban Gynllun Dysgu Creadigol cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu gan bartneriaid ymroddedig a sefydliadau addysg allweddol yr Alban (Education Scotland, dyddiad anhysbys). Efo mwy nag un wlad yn hyrwyddo creadigrwydd o fewn eu haddysg, dangosa hyn y pwysigrwydd o fod yn greadigol mewn ysgolion a'r effaith mai hyn yn cael ar addysg disgyblion.

Tra bod ysgolion cynradd yn ceisio hyrwyddo creadigrwydd o fewn eu haddysg, ni chreda Robinson (TED, dyddiad anhysbys), sef arweinydd a gydnabyddir yn rhyngwladol o ran datblygu creadigrwydd, arloesedd ac adnoddau dynol mewn addysg, bod ysgolion yn gwneud digon – 'we are educating people out of their creativity'.

2.5 – Hyrwyddo creadigrwydd o fewn 'Lleoedd a Phobl'

Yn ôl Grigg a Hughes (2013: 68), 'creative thinking in the humanities involve considering alternative ways of seeing the world.' Creda Barnes (2010: 25) fod creadigrwydd yn gysylltiedig â sgiliau dysgu a meddwl wrth i ddisgyblion arbroti a gwerthuso gwahanol syniadau. Cytuna Duffy (2007 dyfynnwyd yn Gealy a Rees, 2010: 81) bod yna gysylltiad rhwng 'Lleoedd a Phobl' a chreadigrwydd drwy ddweud, 'Children are born with a strong desire to explore the world around them and from this innate curiosity creativity develops.' Cefnogwyd hyn gan Pickford et al. (2013: 170) wrth iddynt ddweud bod creadigrwydd yn agwedd hanfodol o bob pwnc a hefyd gan Catling (2009 dyfynnwyd yn Catling a Willy, 2013: 11) wrth iddo ddweud bod daearyddiaeth yn ddisgyblaeth greadigol.

Mae creadigrwydd wedi cael ei hyrwyddo o fewn daearyddiaeth erioed, fel dywed Barnes (2010: 25), 'Geography has always been imbued with creative potential, but as the curriculum has become more sensitive to the way that children learn, its potential is significantly increased.' Dangosa hyn y pwysigrwydd cynyddol o ddefnyddio creadigrwydd i

gefnogi'r dysgu o fewn ysgolion cynradd. Dewisa Ofsted (2013: 1) Ysgol Gynradd Corsham fel arfer dda wrth iddynt gefnogi addysgu a dysgu rhagorol mewn daearyddiaeth efo cwrwclwm creadigol. Dywed eu bod nhw'n gwella'r dysgu trwy ddarparu cyfleoedd cyfoethogi mynych a chreadigol. Wrth feddwl am hyn, mae gan athrawon rôl bwysig o gefnogi disgyblion wrth iddynt ddatblygu'u sgiliau creadigol. Fel dywed Bruce (2004: 22), 'adults play a critical part in whether or not children become creative people.' Ehangwyd ar hyn drwy ddweud bod angen sensitifrwydd wrth i blant fod yn greadigol ac y dylai oedolion parchu'u gofod personol a'u harwain at syniad yn hytrach na dweud wrthynt beth yn union i wneud (Bruce, 2004: 25). Fel dywed Trenfor (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn Hughes, 2016), 'The best teachers are those who show you where to look, but don't tell you what to see.'

Yn ogystal â hyn, mae yna ddisgwyl i athrawon hwyluso amgylcheddau dysgu ar gyfer darparu cyfleoedd i ddisgyblion darganfod eu doniau unigol a datblygu'r doniau hynny mewn sgiliau ar gyfer gweithio tuag at hunan-wireddiad (Oral, 2008: 7). Wrth sôn am yr amgylchedd ar gyfer creadigrwydd, tynna Pickford et al. (2013: 171) ein sylw at y ffaith bod ymchwil yn dangos bod straen sylweddol yn achosi diffyg cyfathrebu rhwng dwy ran o'r ymennydd, sef yr ochr sy'n rheoli'r prosesau meddwl mwy sylfaenol a'r ochr sy'n rheoli sgiliau meddwl uwch a chreadigrwydd. Felly, gall sefyllfaoedd llawn straen atal creadigrwydd (Pickford et al., 2013: 171).

Awgryma Mackintosh (2007 dyfynnwyd yn Catling a Willy, 2009: 4) bod angen y sgiliau a'r prosesau ynghyd ag ymrwymiad i gadw meddwl creadigol ac agored er mwyn gwneud dysgu ac addysgu 'Lleoedd a Phobl' yn bleserus. Hefyd, dywed Estyn (dyddiad anhysbys) bod yr ysgolion 'rhagorol' yng Nghymru yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiad o wahanol weithgareddau o dan y maes dysgu Datblygiad Creadigol, yn cynnwys, cerddoriaeth, celf, crefft, dawns a symudiad, dylunio a drama. Dangosa hyn y gwahanol weithgareddau creadigol gall athrawon wneud i gyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o fewn y meysydd dysgu eraill, 'Lleoedd a Phobl' yn yr achos hwn.

Noda Desailly (2015) fod yna tair gwahanol ffordd i hyrwyddo creadigrwydd o fewn gwersi, a gall fod yn ffyrdd gall athrawon gwneud defnydd ohonynt wrth ddefnyddio creadigrwydd i gyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o 'Lleoedd a Phobl.' Cynhwysa'r rhain addysgu'n greadigol, dysgu'n greadigol ac addysgu ar gyfer datblygu creadigrwydd (Desailly, 2015). Awgryma Pickford et al. (2013: 172) bod angen cynllunio'n ofalus ac yn gywir i wneud y mwyaf o botensial y dyniaethau, ynghyd a sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth, y cynnwys a'r sgiliau allweddol sydd angen cael eu datblygu.

Pennod 3: Methodoleg

Diffinia Stenhouse (1975 dyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru, 2015: 3) y gair 'ymchwil' efo, 'ymholiad systematig sy'n cael ei wneud yn gyhoeddus'. Tamaid yn wahanol, noda Hole a Hawker (2004: 472) ei fod yn golygu, 'the study of materials and sources to discover facts.'

Wrth wneud y fath yma o brosiect ymchwil, mae moeseg yn andros o bwysig. Cadwyd at ganllawiau BERA, wrth wneud yr ymchwil, ynghyd â sicrhau yr oedd yr hyn a oedd yr ymchwilydd yn gwneud drwy gasglu'r ymchwil yn broffesiynol ac yn foesegol. Nodwyd yn glir pwrpas yr ymchwil i'r nifer a oedd ynghlwm a hefyd sicrhawyd ni fydd unrhyw fanylion personol yn cael eu datgelu. Rhoddwyd ffurflen foeseg i'r oedolion a oedd yn cymryd rhan yn y cyfweiliad (Gweler atodiad 2).

Fel dywed yn y bennod gyntaf, dewiswyd i ddefnyddio mwy nag un dull ymchwil, sef, cyfweiliadau a hefyd arsylwi ar wers 'Lleoedd a Phobl' gan gasglu enghreifftiau o waith gwahanol ddisgyblion o'r wers yna, a dadansoddi gwahanol fathau o ffynonellau eilaidd. Yn ogystal, adfyfyrwyd a chasglwyd enghreifftiau o waith o wersi creadigol a addysgwyd yr ymchwilydd ar brofiad addysgu proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â 'Lleoedd a Phobl'. Mae i bob un ei fanteision a'i anfanteision.

Wrth ddefnyddio cyfweiliadau fel dull ymchwil, credir ei fod yn ffordd effeithiol o ennyn gwybodaeth a barn wybodus ac arbenigol. Wrth wneud sesiwn holi ac ateb, yr oedd fel sgwrs naturiol, ddi-ffws ac wrth ofyn cwestiynau syml, sicrheir hyn yr oedd yr athrawes a'r disgyblion yn glir beth yn union yr oedd yr ymchwilydd eisiau darganfod. Wrth gyfweld â'r athrawes, sicrhawyd yr oedd yn eithaf anffurfiol a oedd yn cyfleu naws cysurus. Wrth gynnal cyfweiliad efo grŵp o ddisgyblion, yn hytrach nag un i un, teimlwyd yr oeddent yn gallu cefnogi'i gilydd wrth iddynt ateb y cwestiynau ynghyd a chael mwy o hyder i wneud hynny. Fodd bynnag, gan yr oeddent ond ym mlwyddyn dau, roedd yn rhaid i'r ymchwilydd ofyn cwestiynau syml a fer iddynt i sicrhau deallusrwydd a bod yr ymchwilydd yn derbyn y math cywir o atebion. Creda'r NFER (2015) bod gwneud cyfweiliadau fel rhan o ymchwil yn effeithiol gan mae'n ffordd o ennyn gwybodaeth fanwl wrth nifer bach o bobl, ynghyd â bod yn ffordd o gael gwybodaeth gyfoethog a chraff wrth ofyn cwestiynau agored. I'r gwrthwyneb, gall cyfweiliadau gymryd cryn dipyn o amser i gasglu data, er enghraifft, cynnal y cyfweiliadau ac ysgrifennu'r nodiadau a gafwyd ohonynt (NFER, 2015). Er hyn, mae'n dibynnu ar y nifer a gyfwelwyd.

Credir yr oedd yn syniad da i arsylwi gwers 'Lleoedd a Phobl' er mwyn i'r ymchwilydd cael gweld y gwahanol dechnegau a chwestiynau mae athrawon yn defnyddio o fewn y Cyfnod Sylfaen wrth addysgu'r elfen yna'n effeithlon. Hefyd, wrth arsylwi athrawes sydd wedi dysgu ers blyneddoddd, mae ganddi ddigon o brofiad i wybod beth sy'n effeithiol a beth sy'n gallu fod yn heriol wrth addysgu 'Lleoedd a Phobl.' Teimlir roedd yr ymchwilydd wedi dysgu o'r hyn a dystiwyd a gall cael effaith ar y ffordd yr addysgid yn y dyfodol. Un peth y teimlir sydd allu fod tamaid i'r negyddol drwy arsylwi gwersi yw'r ffaith bod pob athro/athrawes yn addysgu'n wahanol. Felly, ni fydd fersiwn y wers yr arsylwyd yr un peth a phob math o wers 'Lleoedd a Phobl' o'r wers yma'r un peth. Yn ôl yr NFER (2015), un fantais o wneud arsylwadau fel math o ymchwil ydy bod yr ymchwilydd yn cael cyfle i weld beth yn union sydd yn digwydd o fewn y fath yma o wers, yn hytrach na'r ymarferydd yn dweud yr hyn a ddigwyddir. Fodd bynnag, efallai y gall rhai pobl yr arsylwyd arnynt ymddwyn mewn ffordd wahanol gan eu bod yn ymwybodol eu bod yn cael eu harsylwi, yn ogystal â'r fath o ymchwil nad ydy'n briodol ar gyfer ymchwilio i farn pobl (NFER, 2015).

Teimla'r ymchwilydd yn lwcus o gael y cyfle i ddefnyddio creadigrwydd i gyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr blwyddyn dau o 'Lleoedd a Phobl', drwy ddawnsio, chwarae offerynnau a pheintio. Dangosa hyn yn syth y gwahanol ffyrdd gall athrawon ddefnyddio creadigrwydd i gyfoethogi gwersi. Credir bod yr ymchwilydd wedi buddio o'r cyfle i addysgu'r fath yma o wersi cyn y prosiect ymchwil hwn wrth brofi yn union sut i gysylltu creadigrwydd efo rhannau o'r cwricwlwm, sut mae disgyblion yn ymateb i'r fath yma o wersi a gweld y canlyniad o'r fath gysylltiad. Er hyn, teimlir os byddai ymchwilydd yn canolbwyntio ar yr hyn a wnaed yn unig, mae hyn yn cyfyngu i'r canlyniad a'r wybodaeth maent yn ennyn o'r ymchwil.

O ran defnyddio gwahanol fathau o ffynonellau eilaidd, er enghraifft, llyfrau ac erthyglau fel math o ymchwil, o leiaf roedd ymchwilydd y prosiect ymchwil yn sicr ei bod yn ennyn gwybodaeth ddibynadwy. Ar y pwynt hwn, gall rai gwneud y camgymeriad o gredu unrhyw beth maent yn darllen ar-lein a gall achosi'r nifer yna i gasglu gwybodaeth anwir. Felly, mae'n hynod o bwysig i wirio os ydy'r hyn maent yn darllen yn wir ac yn ddibynadwy yn gyntaf cyn ei ddefnyddio fel rhan o'r ymchwil.

O ran y mathau o ymchwil, teimla'r ymchwilydd efallai y bydd defnyddio holiadur fel math o ymchwil yn syniad da pe byddai'n gwneud y fath yma o brosiect ymchwil eto yn y dyfodol. Yn bennaf, er mwyn cael math arall o ymchwil a gall darparu gwahanol fath o wybodaeth, a hefyd er mwyn cynnwys graffiau yn y prosiect fel rhan o ddangos canlyniad o fath o ymchwil cynradd.

Pennod 4: Canlyniadau a Thrafodaeth

O fewn y bennod hon, trafodir am ganlyniadau'r ymchwil cynradd yn ogystal â'i gysylltu efo ymchwil eilaidd, gan gynnwys yr hyn a ddarganfuwyd yn yr ail bennod, sef yr 'Adolygiad Llenyddiaeth.'

4.1 – Cyfweiliadau – athrawon a grŵp o ddisgyblion

Cyfwelwyd ag athrawes Cyfnod Sylfaen (Gweler atodiad 3) yn ogystal â grŵp o bedwar disgybl blwyddyn 2 (Gweler atodiad 4).

Pan ofynnwyd i'r athrawes beth oedd creadigrwydd yn ei olygu iddi hi, atebwyd gan ddweud i fod yn greadigol yn y ffordd mae pobl yn meddwl a gweithio, yn ogystal â'r ffordd mae athrawon yn trefnu gweithgareddau, sy'n wahanol i'r diffiniadau a ddarganfu'r ymchwilydd yn yr ail bennod. Er hynny, cysyllta hyn efo un o ddibenion y cwricwlwm newydd gan Donaldson (2015: 29) a ddarganfuwyd wrth wneud yr adolygiad llenyddiaeth, bod angen i blant 'meddwl yn greadigol'. Darganfuwyd o'r cyfweiliad mai un ffordd o hyrwyddo creadigrwydd o fewn gwersi 'Lleoedd a Phobl' oedd drwy wahanol heriau. O safbwynt athrawes blwyddyn 2, credwyd ei fod yn hawdd hyrwyddo creadigrwydd o fewn y Cyfnod Sylfaen oherwydd ethos y cyfnod allweddol. Fel dywed yn yr ail bennod, anoga cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac i fod yn greadigol (Llywodraeth Cymru, 2015: 2). Er hyn, creda'r athrawes fod diffyg lle yn sicr yn her wrth annog disgyblion i fod yn greadigol, ynghyd â'r nifer o oedolion ar gael i'w harwain a'i hannog. Cysyllta hyn efo barn Bruce (2004: 22) a ddarganfuwyd o fewn yr adolygiad llenyddiaeth, wrth iddo ddweud bod oedolion yn chwarae rhan hanfodol o ddatblygiad creadigrwydd plant.

Hefyd o fewn y cyfweiliad efo'r athrawes, gofynnwyd a'r oedd yn mwynhau hyrwyddo creadigrwydd o fewn gwersi, lle'r atebwyd efo, 'Wrth fy modd', gan ehangu ar hyn drwy ddweud oherwydd bod sgiliau meddwl a rhesymu'n cael eu datblygu'n ogystal. Dysgwyd o'r cyfweiliad bod nifer o adnoddau gall athrawon ddefnyddio wrth hyrwyddo creadigrwydd o fewn gwahanol wersi, gan gynnwys, cerddoriaeth, y rhynggrwyd ac adnoddau celf. Yn ychwanegol i'r hyn, canfuwyd o'r cyfweiliad bod gofod yn hinsawdd sydd angen ar blant i fod yn greadigol. Ychwanega Trnova (2014: 10) at hyn drwy nodi ffactorau sy'n gyffredin ar gyfer datblygu creadigrwydd. Dywed bod gweinyddiaeth yr ysgol yn gallu fod yn ffactor, gan gynnwys, amser, arian ac agwedd tuag at greadigrwydd (Trnova, 2014: 10).

Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb gyda phedwar o ddisgyblion blwyddyn 2 a gan yr oeddent yn ifanc, gofynnwyd am ganiatâd wrth yr athrawes ddosbarth i gynnal y cyfweiliad. Ar ddiwedd y cyfweiliad, gofynnwyd a oeddent yn hapus i'r ymchwilydd cael defnyddio'r atebion a roddwyd. Gofynnwyd gwahanol gwestiynau iddynt, gan gynnwys, cwestiynau agored a chaeedig. Ar ôl cyfweld â'r disgyblion hyn, teimlir eu bod nhw'n mwynhau fod yn greadigol yn yr ysgol a chredant hwy fod creadigrwydd o fudd iddynt wrth ddysgu am rannau newydd o'r cwricwlwm.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn hoffi gwneud pethau eu hunain, yn hytrach na bod eu hathrawes yn dweud wrthynt beth i wneud, yr ateb y cafwyd gan bob aelod o'r grŵp oedd yr oeddent yn mwynhau cael gwneud dewisiadau. Fel dywed Prentice (2000 dyfynnwyd yn Sharp, 2004: 7), 'For creativity to flourish in an educational setting, it is necessary for learners to be actively involved in the process of their own learning.' Dangosa hyn y pwysigrwydd o roi cyfleoedd i ddisgyblion gwneud eu dewisiadau eu hunain er mwyn iddynt reoli'u dysgu. Hefyd, darganfuwyd o'r cyfweiliad yma eu bod yn mwynhau dysgu am y Byd, gan gynnwys Burkina Faso, sef rhan o thema'r tymor. Ychwanegwyd at hyn drwy ddweud y mwynhawyd dysgu am yr iaith a'r bobl sy'n byw yn y wlad, ynghyd â'r tirweddau sydd yna. Cysyllta hyn efo beth ddarganfuwyd yn yr ail bennod, wrth i Cooper (2004: 11) ddweud bod disgyblion yn dysgu am eu hardal leol wrth gymharu efo gwledydd hollol wahanol. Yn ogystal â dysgu am Furkina Faso, dysgwyd hefyd am Fasnach Deg, a oedd yn cysylltu efo'r elfen 'Lleoedd a Phobl.' Mwynhawyd pob un yn y grŵp dysgu am y daith siocled. Noda Grigg a Hughes (2013: 14) bod y cysyniad o gyd-ddibyniaeth fyd-eang yn cael ei gyflwyno yn aml drwy ail-ddeddfu'r llwybr masnach ar gyfer nwydd penodol, megis siocled neu fananas. Galluoga hyn y disgyblion i weld sut mae dewisiadau defnyddwyr yn effeithio ar unigolion ac amgylcheddau o gwmpas y byd ynghyd a chynyddu eu gwybodaeth am y cymhlethdod o fasnach ryngwladol.

4.2 – Gwers a arsylwyd arni

Wrth i'r ymchwilydd arsylwi ar wers 'Lleoedd a Phobl' tra ar brofiad addysgu proffesiynol, gwelir sut gall gwersi'r elfen yma o'r maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd cael eu haddysgu, yn cynnwys, rhannu gwybodaeth a chwestiynu, a'r fath o daflenni ac adnoddau y gellir defnyddio i wneud y wers yn ddiddorol ac yn hwylus (Gweler atodiad 5). Clywyd cwestiynu effeithiol yng nghyflwyniad y wers a oedd yn atynnu sylw'r disgyblion.

Gwelwyd ffordd effeithiol o ddangos y gwahaniaeth rhwng ffermwyr a oedd yn gwerthu eu cynnyrch i Fudiad Masnach Deg a ffermwyr a oedd yn gwerthu eu cynnyrch i'r brif farchnad, drwy ddewis dau ddisgybl i ddod allan i flaen y dosbarth i esgus fod y ffermwyr yna. Esgusa'r

athrawes mai hi oedd meistr y ddau ffermwr gan roi amlen yr un iddynt a oedd yn cynnwys swm gwahanol o arian. Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth am brisiau teg. Wrth i'r disgyblion weld y fath yma o beth yn digwydd o flaen eu llygaid, credwyd eu bod wedi deall y cysyniad yn well a theimlir mi fyddant yn cofio'r fath yma o wers yn y dyfodol.

O ran y dasg a oedd yn dilyn y cyflwyniad, yr oedd un grŵp o ddisgyblion yn gwneud tasg darllen a deall am ffermwraig a oedd yn gwerthu'r cotwm i Fudiad Masnach Deg (y merched) a ffermwr a oedd yn gwerthu'r cotwm i'r brif farchnad (y bechgyn). Teimlir yr oedd hyn yn effeithiol gan roedd y fath yma o dasg yn eu paratoi ar gyfer y Profion Darllen Cenedlaethol yn ogystal. Roedd y taflenni'n denu sylw'r disgyblion ac yn hawdd i'w deall (Gweler atodiad 6). Tra bod un grŵp yn gwneud y dasg darllen a deall, tasg y grŵp arall oedd i ddioli a dosbarthu pentwr o ddillad wedi'u gwneud allan o gotwm mewn i bedwar grŵp, sef pedair gwahanol wlad – Bangladesh, Twrci, Tsieina ac India, hynny oedd y gwledydd y cafodd y dillad yna eu cynhyrchu. Wrth wneud y dasg ymarferol yma, teimlir gwnaethant ddeall neges a phwrpas y dasg yn well. Fel dywed Confucius (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn Richards a Morgan, 2016), 'I see and I forget. I hear and I remember. I do and I understand.' Yn dilyn y dasg hon, aseswyd eu cyfoed.

4.3 – Gwersi creadigol a oedd yn gysylltiedig â 'Lleoedd a Phobl' a addysgwyd gan yr ymchwilydd

O ran adfyfrio ar wersi a addysgwyd gan yr ymchwilydd, teimlir yr oedd y disgyblion yn mwynhau fod yn greadigol wrth ddysgu am yr elfen 'Lleoedd a Phobl'. Hefyd, wrth fod yn greadigol, maent hefyd yn ymarferol iawn, a gall cael effaith cadarnhaol ar addysg plant. Awgryma McGee (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn The Guardian, 2013), sef pennaeth Manor Primary School, 'Activities need to provide a practical aspect to the learning to provide depth and extension.'

Un wers greadigol a gysylltwyd yn drawsgwricwlaidd efo 'Lleoedd a Phobl' oedd gwers dawns, sef symud yn greadigol, lle'r oedd y disgyblion yn dysgu dawns Affricanaidd drwy wyllo fideo 'YouTube' (Gweler atodiad 7). Wrth eu gweld cyd-ddawnsio efo'r fideo, gwelwyd yr oeddent yn mwynhau ac yn ceisio'u gorau.

Gwers greadigol arall a oedd yn cysylltu'n drawsgwricwlaidd efo 'Lleoedd a Phobl' oedd gwers cerddoriaeth, pan gafwyd y cyfle i chwarae gwahanol offerynnau mewn ffordd Affricanaidd (Gweler atodiad 8). Gwrandawyd ar gerddoriaeth Affricanaidd yng nghyflwyniad y wers er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r fath o gerddoriaeth cyn symud ymlaen i'r brif

dasg o chwarae gwahanol offerynnau eu hunain. Er mwyn cael mwy o le a mwynhad, lleolwyd prif ran y wers allan ar yr iard. Wrth weld eu mwynhad, credir yn gryf fod angen mwy o hyn i ddigwydd yn y Cyfnod Sylfaen. I gefnogi hyn, nodwyd gan Donaldson (2015: 17) bod plant a phobl ifanc eisiau 'mwy o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.' Gan yr oedd digon o le ar yr iard, penderfynwyd gofyn i'r disgyblion a bydden nhw'n gallu dawnsio'n Affricanaidd wrth chwarae'r offerynnau er mwyn ail-ymweld efo beth wnaethant yn y wers symud greadigol. Cofia'r disgyblion y fath o symudiadau yr oeddent wedi gwneud yn y wers yna gan fwynhau gwneud y ddau beth yr un pryd. Mae hyn yn enghraifft o ddysgu'n drawsgwricwlaidd sydd gan nifer o fanteision o ran addysg disgyblion. Rhybuddia Edutopia (2014) am hyn gan ddweud, 'It is time that teachers and administrators realize that public education has reached a dam in the river,' gan ychwanegu at hyn efo, 'unless teachers stop departmentalizing their teaching and start teaching knowledge in context of other knowledge, student learning will continue to be stuck at the dam.' I gwrthwynebu ag hyn, dywed Gove (2009 dyfynnwyd yn Grigg a Hughes, 2013: 45) bod llawer o ysgolion llwyddiannus yn dewis ymagwedd tuag at addysg sy'n dibynnu ar ddisgyblaethau pwnc traddodiadol. Er hyn, noda Robinson (dyddiad anhysbys dyfynnwyd yn The Guardian, 2013) bod angen i Gove ddeall beth yw creadigrwydd yn gyntaf cyn gwneud cynlluniau o sut i hyrwyddo creadigrwydd o fewn ysgolion gan ddywed creda bod creadigrwydd yn dibynnu ar feistroli sgiliau penodol a chaffael corff o wybodaeth cyn bod yn greadigol.

Gwers greadigol arall yr addysgwyd oedd pan drafodwyd a dangoswyd lluniau o wahanol dirweddau sydd yng ngwledydd yn Affrica a'r dasg oedd i'r disgyblion i greu tirwedd debyg drwy ddefnyddio paent ac adnoddau naturiol o'r iard, er enghraifft, brigyn a dail i gynrychioli coeden (Gweler atodiad 9). Wrth ofyn iddynt wneud rhywbeth yn debyg i'r hyn a welwyd ar ddechrau'r wers fel rhan o'r cyflwyniad pwerbwyt, dangosa hyn i'r ymchwilydd os oedd y disgyblion wedi deall y dasg ac a oeddent yn deall mai'r fath yna o dirweddau sydd yng ngwledydd yn Affrica. Hefyd, teimlir gan fod y disgyblion wedi cael y cyfle i dynnu llun tirwedd Affricanaidd eu hunain yn hytrach na gweld lluniau'n unig, mae yn fwy o gyfle iddynt gofio'r hyn a ddysgwyd. Tra bod un grŵp yn gwneud y dirwedd, yr oedd y grŵp arall yn creu patrymau Affricanaidd a oeddent wrth eu boddau yn eu gwneud.

Ar ôl addysgu'r fath yma o wers, cytuna ymchwilydd y prosiect ymchwil efo barn Duffy (2007 dyfynnwyd yn Gealy a Rees, 2010: 81) bod yna gysylltiad rhwng creadigrwydd a 'Lleoedd a Phobl.'

Pennod 5: Casgliad

Yn dilyn yr adolygiad llenyddiaeth a'r ymchwil personol, credir eu bod wedi bod o fudd enfawr i'r ymchwilydd ar gyfer ateb y cwestiwn allweddol, sef teitl y prosiect ymchwil hwn.

Darganfuwyd bod y Cyfnod Sylfaen yn annog creadigrwydd a bod y maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a 'Lleoedd a Phobl' o fewn y maes yna yn bwysig iawn o fewn addysg disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Yn dilyn yr ymchwil, darganfyddir bod yna nifer o ffyrdd gall athrawon hyrwyddo creadigrwydd o fewn 'Lleoedd a Phobl' ac ar ôl y cyfweiliad efo'r disgyblion, darganfuwyd bod y fath yma o wersi yn hwylus iawn ac efo canlyniadau cadarnhaol.

Prif wendid y prosiect ymchwil hwn oedd y diffyg amser i wneud ymchwil cynradd yn yr ysgol a leolwyd ar brofiad addysgu proffesiynol. Fodd bynnag, teimlir roedd yr ymchwil cynradd gwnaeth yr ymchwilydd yn ddefnyddiol ac yn fuddiol dros ben.

Ar ôl pwysu a mesur, credir yn gryf fod creadigrwydd yn gallu cyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr o 'Lleoedd a Phobl' yn y Cyfnod Sylfaen, a ni ddylai athrawon cyfyngu'r hyn i'r pynciau celfyddydol yn unig (Craft, 2001; Wilson, 2005 dyfynnwyd yn Elton-Chalcraft a Mills, 2015: 492).

Teimlir bod yr ymchwilydd wedi elwa llawer o'r prosiect ymchwil hwn ac yn sicr yn mynd i hyrwyddo creadigrwydd o fewn gwersi 'Lleoedd a Phobl' yn y dyfodol er mwyn cyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr. Fel dywed Robinson (2016), 'Imagination is the source of all human achievement.'

Cyfeiriadau

Barnes, J. 'Geography, creativity and place', yn S. Scoffham (gol), (2010) *Primary Geography Handbook*. Sheffield: Geographical Association, tt.25-34.

Bland, K. 'Geography', yn P. Smith a L. Dawes (goln) (2014) *Subject Teaching in Primary Education*. London: SAGE Publications Ltd, tt.109-128.

Bruce, T. (2004) *Cultivating Creativity: For babies, toddlers and young children*. (2^{il} arg) London: Hodder Education.

Catling, S. 'Understanding and developing primary geography', yn S. Scoffham (gol), (2010) *Primary Geography Handbook*. Sheffield: Geographical Association, tt.75-91.

Catling, S. a Willy, T. (goln) (2010) *Teaching Primary Geography*. Exeter: Learning Matters Ltd.

Cooper, H. 'Why time? Why place? Why play?', yn H. Cooper (gol), (2004) *Exploring Time and Place Through Play*. London: David Fulton Publishers, tt.5-23.

Council for the Curriculum, Examinations and Assessment (2006) 'Understanding the Foundation Stage' Ar gael yn:

http://ccea.org.uk/sites/default/files/docs/curriculum/area_of_learning/fs_understanding_foundation_stage.pdf [Darllenwyd: 5 Ebrill 2016]

Desailly, J. (2015) *Creativity in the Primary Classroom*. (2^{il} arg) London: SAGE Publications Ltd.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?lang=cy> [Darllenwyd: 4 Ebrill 2016]

Duffy, B. (1998) *Supporting Creativity and Imagination in the Early Years*. Buckingham: Open University Press.

Education Scotland (dyddiad anhysbys) 'About Creativity' Ar gael yn:

<http://www.educationscotland.gov.uk/learningandteaching/approaches/creativity/about/index.asp> [Darllenwyd: 5 Ebrill]

Edutopia (2014) 'Deeper Learning: Why Cross-Curricular Teaching is Essential' Ar gael yn:

<http://www.edutopia.org/blog/cross-curricular-teaching-deeper-learning-ben-johnson>

[Darllenwyd: 12 Ebrill 2016]

Elton-Chalcraft, S. a Mills, K. (goln) (2015) 'Measuring challenge, fun and sterility on a 'phunometre' scale: evaluating creative teaching and learning with children and their student teachers in the primary school', yn M. Brundrett (gol), *Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years*, 43, 5, tt.482-497.

Estyn (dyddiad anhysbys) 'Y Cyfnod Sylfaen' Ar gael yn: <http://www.estyn.llyw.cymru/y-cyfnod-sylfaen> [Darllenwyd: 4 Ebrill 2016]

Estyn (2016) 'Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015' Ar gael yn: http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accesible_WEB.pdf [Darllenwyd: 5 Ebrill 2016]

Gealy, A. a Rees, A. 'Y Plentyn Creadigol', yn S. Siencyn (gol), (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*. Caerfyrddin: Drindod Dewi Sant, tt.81-98.

Geographical Association (2014) 'Marc Ansawdd Daearyddiaeth i Ysgolion Cymraeg (MAD-C)' Ar gael yn: <http://www.geography.org.uk/cpdevents/qualitymarks/marcansawdddaearyddiaethiysgolioncymraegmad-c/> [Darllenwyd: 8 Ebrill 2016]

Geographical Association (2014) 'The GA's Primary position statement' Ar gael yn: <http://www.geography.org.uk/cpdevents/curriculum/positionstatement/> [Darllenwyd: 8 Ebrill 2016]

Geographical Association (2014) 'The Primary Geography Quality Mark (PGQM)' Ar gael yn: <http://www.geography.org.uk/cpdevents/qualitymarks/primaryqualitymark/> [Darllenwyd: 8 Ebrill 2016]

Grigg, R. a Hughes, S. (goln) (2013) *Teaching Primary Humanities*. Harlow: Pearson Education Limited.

Hole, G. a Hawker, S. (goln) (2004) *Oxford English Minidictionary*. (6^{ed} arg) New York: Oxford University Press.

Hoodless, P., McCreery, E., Bowen, P. a Bermingham, S. (goln) (2009) *Teaching Humanities in Primary Schools*. (2il arg) Exeter: Learning Matters Ltd.

Hughes, S. (2016) *GBD/Daearyddiaeth/Hanes a CHREADIGRWYDD* [Darlith i BA Addysg Gynradd gyda SAC Blwyddyn 3], ITDH6002/C: *Datblygu Diddordebau Proffesiynol: Y Dyniaethau*. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. 1 Chwefror 2016.

Llywodraeth Cymru (2015) 'Gwneud defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil' Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150814-effective-use-of-data-cy.pdf> [Darllenwyd: 9 Ebrill 2016]

Llywodraeth Cymru (2015) 'Fframwaith y Cyfnod Sylfaen' Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/foundation-phase-framework/?lang=cy> [Darllenwyd: 5 Ebrill 2016]

Llywodraeth Cymru (2016) 'Diwygio'r cwricwlwm' Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy> [Darllenwyd: 4 Ebrill]

Logotron (dyddiad anhysbys) 'Creativity' Ar gael yn: <http://www.r-e-m.co.uk/logo/?comp=newsletter&html=11/creativity.htm> [Darllenwyd: 6 Ebrill 2016]

NFER (2015) 'How to choose your research method(s)' Ar gael yn: <http://www.nfer.ac.uk/schools/developing-young-researchers/how-to-choose-your-research-methods.cfm> [Darllenwyd: 9 Ebrill 2016]

Ofsted (2011) 'Geography' Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/413723/Geography_-_learning_to_make_a_world_of_difference.pdf [Darllenwyd: 4 Ebrill]

Ofsted (2013) 'A creative curriculum to support outstanding teaching and learning in geography: Corsham Primary School' Ar gael yn: [http://www.corshamprimary.co.uk/sites/1/media/files/Corsham%20Primary%20School%20-%20good%20practice%20example\[1\].pdf](http://www.corshamprimary.co.uk/sites/1/media/files/Corsham%20Primary%20School%20-%20good%20practice%20example[1].pdf) [Darllenwyd: 4 Ebrill 2016]

Oral, G. 'Creative learning and culture', yn A. Craft, T. Cremin a P. Burnard (goln), (2008) *Creative Learning 3-11*. Stoke on Trent: Trentham Books Limited, tt.3-10.

Pickford, T., Garner, W. a Jackson, E. (2013) *Primary Humanities: Learning through Enquiry*. London: SAGE Publications Ltd.

Pound, L. (2006) *How Children Learn: From Montessori to Vygotsky – educational theories and approaches made easy*. London: Practical Pre-School Books.

Richards, C. a Morgan, C. (2016) *Cam Cyntaf – Cerddoriaeth yn y Cyfnod Sylfaen* [Darlith i BA Addysg Gynradd gyda SAC Blwyddyn 3], ITDA6003/C: Datblygu Diddordebau Proffesiynol: Y Celfyddydau Integredig yn yr Ysgol Gynradd. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. 11 Ionawr 2016.

Robinson, K. (2015) *Creative Schools: Revolutionizing Education from the Ground Up*. London: Penguin Random House UK.

Robinson, K. (2016) 'Home' Ar gael yn: <http://sirkenrobinson.com/> [Darllenwyd: 6 Ebrill 2016]

Sharp, C. (2004) 'Developing young children's creativity: what can we learn from research?', *National Foundation for Educational Research*, 32, Hydref, tt.5-12.

Smith, D. (2013) 'Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru' Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf> [Darllenwyd: 6 Ebrill 2016]

TED (dyddiad anhysbys) 'Ken Robinson' Ar gael yn: http://www.ted.com/speakers/sir_ken_robinson [Darllenwyd: 6 Ebrill 2016]

The Guardian (gol) (2013) 'To encourage creativity, Mr Gove, you must first understand what it is' Ar gael yn: <http://www.theguardian.com/commentisfree/2013/may/17/to-encourage-creativity-mr-gove-understand> [Darllenwyd: 12 Ebrill 2016]

The Guardian (gol) (2013) 'Learning by doing: why we've embraced a practical primary curriculum' Ar gael yn: <http://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2013/feb/26/practical-primary-curriculum-learning-by-doing> [Darllenwyd: 11 Ebrill 2016]

The Telegraph (gol) (2014) 'Nicky Morgan: pupils 'held back' by overemphasis on arts' Ar gael yn: <http://www.telegraph.co.uk/education/educationnews/11221081/Nicky-Morgan-pupils-held-back-by-overemphasis-on-arts.html> [Darllenwyd: 12 Ebrill]

Trnova, E. (2014) 'IBSE and Creativity Development', *Science Education International*, 25, 1, tt.8-18. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1022897.pdf> [Darllenwyd: 12 Ebrill 2016]

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.